# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 25 Mawrth 2003

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r Gweinidog wedi bod yn gohebu â Chyngor Sir Ceredigion ynghylch Cam II Cynllun Cludiant Aberystwyth. (WAQ23769)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Gam II Cynllun Cludiant Aberystwyth. (WAQ23770)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau â Chyngor Sir Ceredigion ynghylch Cam II Cynllun Cludiant Aberystwyth. (WAQ23771)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw sylwadau oddi wrth fasnachwyr yn Aberystwyth ynghylch effaith Cam II Cynllun Cludiant Aberystwyth. (WAQ23772)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw sylwadau oddi wrth y cyhoedd ynghylch Cam II Cynllun Cludiant Aberystwyth. (WAQ23773)

**David Ian Jones (Gogledd Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Ffordd Osgoi arfaethedig Caergwrle. (WAQ23787)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud i'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r effaith a gaiff hyn ar ffermwyr Cymru, yn enwedig yn yr ardaloedd llai ffafriol. (WAQ23774)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael â'r Gweinidog cyfatebol yn San Steffan ynghylch effaith diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin ar ffermio yng Nghymru. (WAQ23775)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pam nad oes unrhyw daliadau caledi wedi'u gwneud i'r rheiny sy'n derbyn taliadau'r Cynllun Premiwm Buchod Sugno. (WAQ23776)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i adennill yr iawndal a dalwyd o ganlyniad i fethiant y system gyfrifiadurol mewn perthynas â'r cymorthdaliadau a oedd yn hwyr yn cael eu talu i ffermwyr Cymru. (WAQ23777)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i dalu iawndal i ffermwyr Cymru am gymorthdaliadau a oedd yn hwyr yn cael eu talu. (WAQ23778)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cyflwyno i Lywodraeth San Steffan ynghylch effaith y gyfarwyddeb ar waredu stoc a fu farw ar ffermio yng Nghymru. (WAQ23779)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas ag effaith y gyfarwyddeb ar waredu stoc a fu farw ar ffermio yng Nghymru. (WAQ23780)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi’u cael â’r Gweinidog cyfatebol yn San Steffan ynghylch y gyfarwyddeb ar waredu stoc a fu farw. (WAQ23781)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa sylwadau y mae’r Gweinidog wedi’u cyflwyno i’r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch effaith y gyfarwyddeb ar dagio dwbl ar ffermwyr Cymru. (WAQ23782)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa sylwadau y mae’r Gweinidog wedi’u cyflwyno i Lywodraeth San Steffan ynghylch effaith y gyfarwyddeb ar dagio dwbl ar ffermwyr Cymru. (WAQ23783)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi’u cael â’r Gweinidog cyfatebol yn San Steffan ynghylch y gyfarwyddeb ar dagio dwbl. (WAQ23784)

## *Gofyn i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pryd y mae’r Gweinidog yn disgwyl y caiff penderfyniad ei wneud ar y ffordd ymlaen ar gyfer prosiect Ysbyty newydd Dinbych-y-pysgod. (WAQ23785)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Ymhellach i Gwestiynau Ysgrifenedig 23224/5/6/7, a wnaiff y Gweinidog ddarparu gwybodaeth ynghylch pwy i gysylltu â hwy er mwyn cael y wybodaeth y gofynnwyd amdani. (WAQ23786)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Ymhellach i'w hateb i WAQ18778, a wnaiff hi nodi'r gwelliannau mewn canlyniadau iechyd sydd wedi deillio o bob un o'r prosiectau a restrwyd yn ei hateb. (WAQ23605)

**Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Ymhellach i'w hateb i WAQ18778, a wnaiff hi restru faint o gyllid y mae pob un o'r prosiectau a restrwyd yn ei hateb wedi'u derbyn. (WAQ23806)